

Ffydd yw...

“Ond cynifer ag a’i derbyniodd, rhoes iddynt hwy, y rhai sy’n credu yn ei enw, hawl i ddod yn blant Duw.” (adn. 12)

Beth am ddarllen Ioan 1:1–14 ac yna myfyrio

Mae’n amser canolbwyntio ar y rhestr o rinweddau y mae Pedr yn ei annog ar ein cyfer, y rhinweddau y dylem eu hychwanegu at ein bywyd Cristnogol. Mae’n bwysig nodi, fodd bynnag, nadyw’r rhinwedd cyntaf y mae’n nodi, sef ffydd, yn rhywbeth y dylem ei ychwanegu at ein bywyd os ydym eisoes yn Gristnogion, ond rhywbeth sydd yn ein meddiant yn barod. Os nad yw ffydd yn bresennol, yna mae’r holl rinweddau y mae Pedr yn eu rhestru yn gwneud dim ond ychwanegu at ryw foesoldeb personol. Mae’n gwneud crefydd yn ddim mwy nag ymarfer moesol. Mae’n wir i ddweud fod tyfiant Cristnogol yn dibynnu ar ychwanegu y rhinweddau hyn, ond mae’r bywyd Cristnogol yn dechrau hefo ffydd bersonol. I osod hyn yn ei ffordd symlaf, ni all neb fod yn Gristion os nad yw y person yma wedi ymarfer ffydd.

Ond beth yw ffydd? Fy hoff ddiffiniad i yw ‘croesawu yr hyn yr ydych yn ei gredu’. Rwy’n hoff o’r diffiniad oherwydd mae’n pwysleisio fod ffydd yn fwy na chredo meddyliol. Mae ffydd yn croesawu fel ffaith yr hyn yr ydym yn ei gredu fel syniad. Mae’r testun heddiw yn gwneud pwynt fod ffydd yn fwy na chredo, mae ffydd yn derbyn. Ni all yr un diffiniad o ffydd fod yn ddigonol os yw yn ei chaethiwo i fyd credo yn unig. Ni fyddai hyn yn gwneud dim mwy na chydabod yn feddyliol rhyw wirionedd allanol heb gynnwys yr elfen o ymddiriedaeth.

Yn y bôn, y syniad sydd yn waelodol i’r gair Groeg am ffydd (*pistis*) yw y syniad o ymddiriedaeth. Yn y Beibl, nid dal at gredo yn unig yw ffydd, ond yn hytrach person ffydd yw y person sydd yn mentro ei holl bersonoliaeth ar ymddiried mewn un sydd yn deilwng o ymddiriedaeth. Diwedd ffydd Feiblaidd yw uno y person sydd yn credu hefo’r person yr ydym yn credu ynddo. Dim ond i’r graddau yr ydych yn cael eich uno mewn ffydd hefo Crist y medwrch feddiannu y cyfoeth o fywyd sydd yn rhagflas o dragwyddoldeb.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Math. 10:40; Col. 1:1–14; Iago 2:19; 1 Ioan 5:1–13

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth am gymharu credo a ffydd?
2. Sut mae rhoi ein hymddiriedaeth yn Nuw?

Gweddi

O Dad, sut allaf fyth ddiolch digon i ti am fy nghynorthwyo i, nid yn unig i gredu, ond i dderbyn dy Fab i mewn i’r calon a’r bywyd. Am hyn, byddaf yn dy ganmol i dragwyddoldeb. Amen.